

ISSN 2053-5171  
Rhifyn 5  
Haf 2014

# Herio Materion Crefyddol

Philippe Dauphin  
ar Jung a Seicoleg  
Crefydd

David Wilkinson  
ar Wyrthiau mewn Oes  
Wyddonol

Jeff Astley  
ar Ddatblygiad Ffydd

Ashley Wilson  
ar Foeseg Sefyllfa  
a Joseph Fletcher

# Herio Materion Crefyddol

## Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

Rhifyn 5 Haf 2014

### Cynnwys

Jung a Seicoleg Crefydd Philippe Dauphin	2
A yw Credu mewn Gwyrthiau'n rhesymol mewn Oes Wyddonol? Yr Athro David Wilkinson	8
Datblygiad Ffydd Yr Athro Jeff Astley	14
Moeseg Sefyllfa: A oedd Joseph Fletcher yn iawn trwy'r adeg? Dr Ashley Wilson	22

### Golygydd

Professor Jeff Astley (Prifysgol Glyndŵr)

### Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol Glyndŵr, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

### Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)

Libby Jones (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Glyndŵr)

Phil Lord (Arweinydd System, GwE)

Yr Athro Peter Neil (Prifysgol Bishop Grosseteste)

Dr Stephen Parker (Prifysgol Worcester)

Jenny Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Dr Paul Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Y Parchedig Mary Stallard (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Y Gwir Barchedig David Walker (Prifysgol Glyndŵr)

Yr Athro Michael West (Prifysgol Glyndŵr)

**Dyluniwyd gan** Phillip Vernon

**Cyfieithiad gan** Nant Roberts

*Herio Materion Crefyddol*

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

Llys Onnen

Abergwyngregyn

Gwynedd

LL33 0LD

Ffôn: 01248 680131

E-bost: [t.apsion@glyndwr.ac.uk](mailto:t.apsion@glyndwr.ac.uk)

Gwefan: [www.st-marys-centre.org.uk](http://www.st-marys-centre.org.uk)

**Noddwyd gan Lywodraeth Cymru**

## Jung a Seicoleg Crefydd Philippe Dauphin

*Mae'r erthygl hon yn trafod yn feirniadol syniadau allweddol Jung, trwy ganolbwyntio'n arbennig ar y cysyniadau o'r anymwybod torfol, archdeipiau ac ymunigoli, a'i safbwyntiau ar grefydd.*

*Cyswllt manyleb: CBAC AC1/2 CS: Cyflwyniad i Grefydd mewn Cymdeithas Gyfoes (UG) 4. Crefydd a'r Unigolyn.*

### Plentyndod Jung a'i berthynas â Freud

Cafodd Carl Gustav Jung ei eni yn y flwyddyn 1875, yn fab i weinidog Diwygiedig yn Kesswil, y Swistir. Gadawodd credoau crefyddol ei dad, a'r ffordd yr oedd yn ymdrechu â'r rhain, ddylanwad mawr ar Jung pan oedd yn ifanc. Yn tyfu i fyny fel unig blentyn, roedd Jung yn gymeriad mewnblyg a chanddo ddychymyg byw. Yn ei hunangofiant, *Memories, Dreams and Reflections*, mae'n disgrifio llawer o'i atgofion cynnar a'r breuddwydion a'r gweledigaethau y byddai'n eu cael. Mae Jung hyd yn oed yn siarad yn ddidwyll am y ffaith ei fod yn credu bod ganddo ddwy bersonoliaeth wrth iddo dyfu i fyny. Bachgen ysgol cyffredin oedd Personoliaeth 'Rhif 1', tra roedd 'Personoliaeth Rhif 2' yn ddyn hŷn o'r ddeunawfed ganrif a oedd yn gwisgo gwallt gosod gwyn ac yn teithio mewn coetsis (Jung, 1995, tt. 33-34). Byddai'r

rhyngweithiad rhwng ei ddwy bersonoliaeth a'r dychmygion bywiog yn dylanwadu ymhellach ymlaen ar Jung yn ei ddamcaniaeth bod delweddau seicig o bwysigrwydd enfawr ar iechyd meddwl pobl.

Y dyddiau hyn, caiff Jung ei gofio'n bennaf am ei gyfeillgarwch gyda Sigmund Freud. Cyfarfu'r ddau yn y flwyddyn 1907, a chydweithio'n agos wedyn am bron i chwe blynedd. Edrychai Jung ar Freud fel y ffigur tadol yr oedd ei wir angen, ac yn ei dro ystyrir Jung gan Freud fel ei etifedd ac fel arweinydd ei fudiad seicdreiddiol. Yn anffodus i Freud ni ddaeth hyn i fod, gan i Jung anghytuno â rhai o syniadau Freud a gwahanu oddi wrtho i barhau ar ei ben ei hun. Digwyddodd hyn yn y flwyddyn 1913 a chafodd effaith ddwys ar Jung. Wrth edrych yn ôl, fe ddywedodd Jung ei fod bron â bod wedi cael chwalfa nerfau bryd hynny: *'When I parted from Freud, I knew that I was plunging into the*

## Jung a Seicoleg Crefydd

*unknown. Beyond Freud, after all, I knew nothing; but I had taken the step into the darkness'* (Jung, 1995, t. 225). Yn ystod y cyfnod hwn, fe brofodd Jung lawer o freuddwydion a gweledigaethau rhyfedd, ond yn y diwedd fe ddaeth drwyddi gyda chynllun penodedig o ddamcaniaeth a fyddai'n ffurfio gweddill ei fywyd.

### Yr anymwybod torfol ac archdeipiau

Yn ôl Jung, gellid rhannu'r meddwl dynol yn dair rhan. Y rhan gyntaf yw'r ego neu'r ymwybod. Mae'r rhan hon yn cynnwys ein meddyliau, ein teimladau a'n personoliaeth: y rhan sydd yn agored i'r byd allanol. Fodd bynnag, mae ein hymwybod hefyd yn rhyngweithio â'r ddwy ran arall: yr anymwybod personol a'r anymwybod torfol. Cynnwys yr anymwybod personol yw ein profiadau a'n hatgofion. Roedd hwn o bwysigrwydd cymharol fach i Jung, am ei bod hi'n weddol hawdd dod yn ymwybodol ohono. Yr hyn sydd o bwysigrwydd eithaf, fodd bynnag, yw'r anymwybod torfol. Haen waelodol o ffurfiau cynfodol yw'r anymwybod torfol sy'n cael ei rhannu gan y ddynoliaeth gyfan. Caiff ei hadeiladu o batrymau ymatebol dynol sydd wedi bodoli ers dechreuad amser ac sy'n gweithredu fel rhyw fath o gynhwysydd ar gyfer yr hyn a ddisgrifia Jung fel y '*constantly repeated experiences of humanity*' (Jung, 1990, t. 69).

Y patrymau ymatebol penodol y mae'r anymwybod torfol yn eu cyfathrebu â ni, a'r ffurfiau cynfodol y mae'n eu cynnwys, yw'r *Archdeipiau*. Cyfyd archdeip fel math o anogaeth neu reddf sy'n ceisio dweud wrthy ch chi beth i'w wneud mewn sefyllfa benodol. Dywed Jung bod cymaint ag sydd o sefyllfaoedd dynol cyffredin. Fodd bynnag, dim ond cael profiad o archdeipiau sy'n bosib yn unig,

ac ni ellir eu deall yn ymwybodol. Mae ein meddwl, sy'n gweithio i ddwyn ynghyd yr anymwybod a'r anymwybodol, felly, yn ffurfio'r archdeipiau i fod yn *ddelweddau archdeipol*, y gallwn eu deall yn ymwybodol. Felly, pan ddaw'r ymwybod yn ymwybodol o'r delweddau archdeipol sydd yn cyrraedd ato trwy gyfrwng yr archdeipiau, mae'n gwneud synnwyr ohonyn nhw trwy eu gosod ar ffurf naratif, fel mythau neu freuddwydion (Walker, 1995, tt. 9-15). Roedd storïau fel rhai am Theseus a'r Minotor, a Perseus a Medusa, ond hefyd stori lesu a storïau crefyddol eraill o bob cwr o'r byd, yn ffordd o ddweud wrth grŵp o bobl, neu gymdeithas gyfan, am beidio â cholli cydbwysedd ond parhau i ganolbwyntio ar sefydlogrwydd a hunanles. Mae'r un peth yn wir am freuddwydion, ond ar lefel bersonol. Yn achos Jung, roedd hyn hefyd yn egluro iddo pam roedd crefyddau'r byd mor debyg i'w gilydd, tra roedden nhw ar yr un pryd yn wahanol. Mae Archdeipiau yr un peth i bawb ledled y byd, ond mae'r delweddau archdeipol y maen nhw'n eu llunio er mwyn eu deall yn ddibynol ar eu cefndir a'u diwylliant. Delweddau archdeipol gwahanol o'r un archdeip yw lesu a'r Bwdha, er enghraifft.

Prif rôl delweddau archdeipol yw gweithredu fel cyfryngwr rhwng yr ymwybod personoliaeth a'r archdeipiau anymwybodol. Yng ngolwg Jung, roedd iechyd meddwl yr unigolyn o ddifrif yn fater o gydbwysedd. Ymgynraedd at gael cydbwysedd rhwng grymoedd yr anymwybod a dewisiadau'r ymwybod oedd y ddyletswydd bwysicaf mewn bywyd. Roedd y weithred hon o gydbwysedd yn cael ei hyrwyddo gan archdeip yr *hunan*. Mae delweddau archdeipol pwysig eraill yn cynnwys y *cysgod* (yr arferion sy'n negyddol ac sy'n gymdeithasol annerbyniol ym

## Jung a Seicoleg Crefydd

mhersonoliaeth rhywun), yr *anima* (yr agwedd fenywaidd o'r meddwl gwrywaidd) a'r *animus* (yr agwedd wrywaidd o'r meddwl benywaidd).

### Yr hunan ac ymunigoli

Mae archdeip yr hunan yn ganolog i'r modd y mae Jung yn meddwl. Pet cyfystyr yw'r hunan ar gyfer y broses o *ymunigoli*, sy'n elfen allweddol ym mywyd pob person. Yn ôl Jung, mae pawb yn dyheu am gyfanrwydd, neu am ddod yn berson cyflawn. Er na ellir ymgysgu at gyflawnder yn llwyr, wedi dweud hynny mae'n nod i bob bywyd dynol. Gelwir y dyhead hwn yn ymunigoli, a byddwch yn ymdrechu i gyrraedd ato pa un ai a ydych chi'n ymwybodol ohono ai peidio.

Yma, mae Jung yn cyffelybu safbwynt dibenyddiol Aristotlys o'r bydysawd. Roedd Aristotlys yn meddwl fod pob peth sy'n bod (boed yn ddynol, anifail neu blanhigyn) yn meddu ar yriant mewnol er mwyn gwreiddu ei gyflawnrwydd. Yn achos Aristotlys roedd hyn yn egluro cwrs Natur yn gyfan gwbl. Felly yn union fel y bydd mesen bob amser eisau dod yn dderwen, mae'r unigolyn yn ymdrechu bob amser i ddod yn unigryw a chyflawn (Soccio, 2009, tt. 160-161).

Ymunigoli yw'r grym gyriadol sy'n gwaelodoli breuddwydion, mythau a mynegiannau eraill yr anymwybod. Roedd Jung yn meddwl bod mythau'n arbennig o bwysig ar gyfer bywyd meddyliol iachus pobl. Roedd yn gofidio' aml am y ffaith nad oedd hi'n ymddangos fod myth yn bodoli mwyach yn ein cymdeithas fodern, ac roedd yn beio Cristnogaeth am hyn. Yr hyn yr oedd Cristnogion wedi ei wneud oedd cymryd stori Iesu, anwybyddu'r holl symbolau a'r trosiadau a oedd ynddi, a dweud yn lle hynny bod y cyfan ohoni'n llythrennol wir. Ym marn, roedd hyn yn enghraifft

berffaith o sut mae pobl yn gosod gormod o bwyslais y dyddiau hyn ar yr ymwybod ac yn anghofio am yr anymwybod (Jung, 1991b, tt. 88-89).

Ond waeth faint y byddwn ni'n ceisio ysgubo ymaith yr anymwybod, bydd bob amser yn ceisio anfon negeseuon atom. Rhoddodd Jung yr enghraifft o'r storïau am ehedbethau anhysbys a bywyd all-ddaearyl a oedd yn cylchredeg yn rhan gyntaf yr ugeinfed ganrif. Yn ôl Jung, fersiynau modern o'r myth gwaredol oedd y storïau hyn, fel stori Iesu. Oherwydd bod pobl yn yr 1940au a'r 50au wedi eu meddiannu'n ormodol ag ofnau a phryderon ymwybodol, roedd archdeip yr hunan yn cael ei actifadu gan yr anymwybod i geisio adfer cydbwysedd (Jung, 1991a, tt. 322-324). Fel mae'r hunan yn perthnasu â chyflawnder, roedd y delweddau archdeipol neilltuol gafodd eu llunio (sef Ehedbethau Anhysbys - UFOs) yn grwn, ac roedd hynny i Jung yn symboleiddio cyflawnder a threfn.

Byddai Jung yn dweud yn aml, felly, y dylai pobl uniaethu eu hunain naill ai â myth neu arwr mytholegol, er mwyn eu helpu i gynnal cydbwysedd rhwng yr ymwybod a'r anymwybod. Yn wreiddiol, tasg crefydd oedd hon, ond gan fod hyn wedi cael ei anghofio rydym yn cael ein hunain mewn cymdeithas sy'n gosod gormod o bwysigrwydd ar yr ymwybod a'i alluoedd. Dylid nodi, fodd bynnag, bod Jung yn llawer mwy cadarnhaol dros grefyddau fel Bwdhaeth a Hindwaeth na thros Gristnogaeth, oherwydd ei fod yn meddwl bod y crefyddau Dwyreiniol heb llwyr gefnu eto ar yr anymwybod am yr ymwybod.

Yn achos Jung, un o'r tasgau pwysicaf ar y ffordd i ymgysgu at ymunigoli oedd 'wynebu'r' anymwybod. Roedd hyn yn un o'r pethau mwyaf anodd eu gwneud, ac yn aml fe fyddai'n cymharu

## Jung a Seicoleg Crefydd

hyn â mytholeg a chwedloniaeth hen arwyr. Gwelai Jung yr anymwybod yn ddyrys a pheryglus, ond nid o reidrwydd yn ddrwg neu'n ddinistriol (Stein, 1995, t. 5). Y glwyd gyntaf yr oedd person yn gorfod mynd drosti, i gyrraedd at ddirnadaeth o'r anymwybod, oedd wynebu ac integreiddio ei gysgod ei hun, oherwydd dyma'r ffigur agosaf i'r meddwl ymwybodol (Jung, 2009, t. 270). Ym meddwl Jung byddai'n ofynnol i unigolyn ddod yn ymwybodol o'r agweddau tywyll a negyddol sy'n rhan o'u seice eu hunain. Dim ond ar ôl hynny y bydden nhw'n gallu meddu ar farn foesol ddiogel a pharhau ar y llwybr tuag at ymunigoli. Saif y cysgod (fel pob delwedd archdeipol arall, ar wahân i'r rhai sy'n gynnyrch yr hunan) dros ran o'r broses tuag at ymunigoli.

### Beirniadaethau

Un o'r beirniadaethau mwyaf cyffredin am Jung oedd bod ei ddamcaniaethau'n anwyddonol. Roedd Jung ei hun yn argyhoeddedig bod ei fersiwn ef o seicoleg (oedd yn cael ei galw ganddo'n seicoleg ddadansoddol) yn wyddoniaeth. Ei dystiolaeth ar gyfer hyn oedd ei brofiadau ei hun a rhai oedd yn derbyn sylw ganddo, y rhai yr oedd yn eu gweld yn ddyddiol yn ei bractis. Fodd bynnag, gan na ellir hyd heddiw brofi'n wyddonol yn bendant sut mae'r meddwl dynol yn gweithredu, nid oes prawf empeiraidd ar gyfer ei ddamcaniaethau.

Cafodd Jung ei feirniadu hefyd am gredu bod delweddau seicig yn wir. Ond trwy fod yn 'wir' nid oedd Jung yn awgrymu bod ganddyn nhw bresenoldeb gwirioneddol gorfforol. Yn hytrach roedd yn golygu bod y ffaith eu bod yn ein meddyliau ddim yn eu gwneud yn llai pwysig, nac ychwaith yn lleihau'r dylanwad y gallen nhw ei gael ar iechyd meddwl unigolyn. Fe siaradodd Jung yn

agored hyd yn oed am gymeriad o'i ddychymyg ei hun a wnaeth ei helpu wrth iddo ddod wyneb yn wyneb â'r anymwybod: hen ŵr o'r enw Philemon. Yn ôl Jung, fe ddywedodd Philemon wrtho am feddyliau nad oedd wedi bod yn ymwybodol ohonyn nhw, a thrwy hynny ei helpu ar ei ffordd tuag at ymunigoli (Jung, 1995, t. 185). Felly, tra ein bod yn gyffredinol yn honni os yw pethau i fod yn wir, rhaid iddyn nhw fodoli'n annibynnol o'n meddyliau ni, i Jung roedd y gwahaniaeth hwn yn seiliedig ar resymeg anghywir a oedd yn gosod gormod o bwysigrwydd ar yr anymwybod.

Yr hyn sy'n berthnasol i ddelweddau seicig sy'n berthnasol hefyd i Dduw. Yng ngolwg Jung, nid oedd Duw naill ai'n syniad oedd yn teilyngu prawf gwyddonol nac yn wrthrych syml o gred. Roedd yn ffaith seicig - '*psychic fact*' (Jung, 1991b, t. 464). Profiad oedd Duw, ac roedd hynny ynddo'i hun yn ei wneud yn werthfawr gan ei fod yn mynegi archdeip, sef un o'r hunan (Jung, 1992, t. 243).<sup>1</sup> Gellid egluro cred mewn ysbrydion yn yr un modd. Dywedodd Jung bod credoau o'r fath yn ddigon naturiol oherwydd y ffaith bod pobl yn meddwl eu bod yn wir yn dangos sut roedden nhw'n dehongli negeseuon oddi wrth yr anywybod.

Fodd bynnag, mae beirniaid wedi haeru bod esboniadau Jung yn anfodddhaol. Trwy ddweud fod Duw yn brofiad mewnol o'r hunan, roedd Jung yn gwadu bodolaeth wrthrychol Duw. Ar yr un pryd, roedd anghredinwyr yn dadlau nad oedd prawf o bethau fel archdeipiau a'r anymwybod torfol, a bod angen dehongliadau yn fwy na dim ar brofiadau pobl.

Beirniadaeth arall yw honno, tra bo Jung yn honni bod yn empirydd, dengys

<sup>1</sup> Fodd bynnag, fe ddefnyddiodd Jung 'Dduw' hefyd yn gyfystyr â'r anymwybod torfol (Jung, 1991b, t. 163).

## Jung a Seicoleg Crefydd

ei ddamcaniaeth ar archdeipiau ac ymunigoli ei hun, mewn gwirionedd, nodweddiad o athrawiaeth grefyddol a metaffisegol, i'r pwynt ei fod wedi cael ei alw'n *holl-dduwiol* neu'n *banatheistaidd* (Fuller, 2008, tt. 101-102). Felly, er bod Jung yn credu ei fod yn egluro crefydd yn wyddonol, roedd yn hytrach yn nes at adeiladu ei gyfundrefn gred ei hunan. Y dyddiau hyn, dethlir damcaniaethau Jung fwyaf gan ddilynwyr mudiadau'r Oes Newydd. Yr unig destun academiaidd sy'n parhau i ddefnyddio ei ddamcaniaeth o archdeipiau'n rheolaidd

yw beirniadaeth lenyddol. Mae seicolegwyr, ar wahân i griw ffyddlon o ddilynwyr, i raddau helaeth wedi gwrthod ei syniadau a'i ddulliau.

Fodd bynnag, roedd Jung yn ddim os nad yn wreiddiol, ac mae pobl yn parhau i ddarganfod eu hunain yn ei syniadau. Pan roddir dewis iddyn nhw, bydd y mwyafrif o bobl yn parhau i gredu bod digwyddiadau yn eu bywyd yn digwydd am reswm, boed hynny ar gyfer ymunigoli neu beidio, yn hytrach nac yn ganlyniad hap a damwain.

### Geirfa

*Archdeip/ Archetype*: profiad penodol sydd yn rhan o'r anymwybod torfol ac sydd weithiau yn ceisio cysylltu â ni i'n harwain.

*Anymwybod torfol/ Collective unconscious*: term gan Jung ar gyfer yr hyn yr oedd ef yn ei ystyried fel rhyw fath o gronfa seicig, yn cael ei rhannu gan ddynoliaeth gyfan, ac yn cynnwys profiadau a greddfau o oesoedd a fu.

*Empeiriaeth/ Empiricism*: y gred bod pob gwybodaeth yn deillio o brofiad synnwyr.

*Ymunigoli/ Individuation*: y broses o ddod yn berson cyfan a chyflawn,

ac yn ôl Jung, a oedd amcan bywyd.

*Oes Newydd/ New Age*: mudiad ysbrydol a dardodd yn y byd Gorllewinol yn ail ran yr ugeinfed ganrif ac sy'n cyfuno crefydd ac athroniaeth y Dwyrain a'r Gorllewin gydag elfennau o seicoleg a disgyblaethau eraill.

*Pantheistiaeth/ Pantheism*: y gred bod Duw'n gyfystyr â'r bydysawd, neu fod popeth yn Natur yn rhan o dduwdod holl-amgylchol a mewnfodol.

*Seice/ Psyche*: crynswth y meddwl dynol; *seicig*: yn perthyn i'r meddwl dynol.

### Cysylltau

<http://www.cgjungpage.org/>(The Jung Page)

<http://www.carl-jung.net/index.html>  
(Carl Jung Resources)

<http://www.thesap.org.uk/>(Society of Analytical Psychology)

## Jung a Seicoleg Crefydd

### Pwyntiau trafod

1. Os yw'r anymwybod mor bwysig i ni, pam ei fod mor anodd ei ddeall?
2. Sut yr oedd theistiaid yn gallu defnyddio damcaniaethau Jung i gyfiawnhau eu cred yn Nuw? A sut oedd modd i anffyddwyr wneud defnydd o Jung i gyfiawnhau nad yw Duw yn bodoli?
3. Os mai rhywbeth sy'n deillio o'r anymwybod torfol yw crefydd, allwn i fyth gael rhywbeth sy'n debyg i foesoldeb gwrthrychol?
4. Sut y mae Jung yn wahanol i bantheistiaid pan yw'n cymharu Duw gyda'r hunan?

### Cyfeiriadau

- Fuller, A.R. (2008). *Psychology and religion: Classical theorists and contemporary developments*. Lanham, Maryland: Rowman & Littlefield.
- Jung, C.G. (1990). *Two essays in analytical psychology*, Collected Works, vol. 7. London: Routledge.
- Jung, C.G. (1991a). *Civilization in transition*, Collected Works, vol. 10. London: Routledge.
- Jung, C.G. (1991b). *Psychology and religion: West and East*, Collected Works, vol. 11. London: Routledge.
- Jung, C.G. (1992). *Psychological types*, Collected Works, vol. 4. London: Routledge.
- Jung, C.G. (1995). *Memories, dreams, reflections*. London: Fontana Press.
- Jung, C.G. (2009). *The archetypes and the collective unconscious*, Collected Works, vol. 9, pt. 1. London: Routledge.
- Soccio, D.J. (2009). *Archetypes of wisdom: An introduction to philosophy*. Belmont: Wadsworth.
- Stein, M. (Ed.) (1995). *Jung on evil*. London: Routledge.
- Walker, S.F. (1995). *Jung and the Jungians on myth*. London: Garland Publishing.

*Astudiodd Philippe Dauphin ym mhrifysgolion Maastricht, Colchester a Louvain, ac ar hyn o bryd mae'n addysgu Astudiaethau Crefyddol ac Athroniaeth yng Ngholeg Totton College yn Ne Lloegr.*



## A yw Credu mewn Gwyrthiau'n rhesymol mewn Oes Wyddonol?

David Wilkinson

*Mae llawer o bobl yn amau bodolaeth gwyrthiau oherwydd bod 'gwyddoniaeth yn eu dirymu'. Mae'r erthygl hon yn archwilio'r cymhlethdod sydd ynghlwm wrth y math yma o ddadl, gan nodi bod y diffiniad o wyrth yn bell o fod yn syml, hyd yn oed oddi mewn i gymuned grefyddol; ac yn awgrymu bod y gwrthwynebiadau gwyddonol i wyrthiau yn wan a bod y disgrifiad gwyddonol cyfoes o'r byd yn wahanol iawn i gloc rhagfynegol Newtonaidd, lle nad oes gan Dduw ryddid o gwbl i weithredu mewn ffyrdd anarferol.*

*Cyswllt manyleb: CBAC AC3 PHIL: Astudio Athroniaeth Crefydd (U2), 3. A yw ffydd grefyddol yn gydnaws â thystiolaeth wyddonol?*

Heddiw mae ton o ddiddordeb mewn gwyrthiau i'w chael mewn llawer o grwpiau crefyddol, yn enwedig yn yr eglwysi Cristnogol. Cododd dechreuad y mudiad Pentecostaidd, ym mlynnyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif, a'r mudiad carismataidd yn ystod y 40 mlynedd ddiwethaf broffil y 'goruwchnaturiol' mewn llawer o eglwysi, ac yn neilltuol fe gododd gwestiynau am iachau. Hawlia rhai bod gwyrthiau yn ganolog i'r ffydd Gristnogol, tra bo eraill yn dadlau ein bod yn byw mewn bydysawd sydd wedi ei gau i ffwrdd oddi wrth ymyrraeth ddwyfol, lle caiff y gwirionedd ei ganfod trwy ddulliau empeiraidd a meddwl rhesymol – *'we live in a universe which is closed off from divine intervention, in which truth is arrived at through empirical means and rational thought.'* (Wimber, 1985, t. 77).

### **Diffinio gwyrthiau: Cymhlethdod y deunydd Beiblaidd**

Yn ddiamheuol, mae'r Beibl yn llyfr sy'n cofnodi'n ddiymwad ddigwyddiadau sydd o unrhyw ddiffiniad yn wyrthiol. Mae Iesu'n troi dŵr yn win mewn priodas (Ioan 2:1-11) ac mae'n debyg yn herio rheolau disgrychiant trwy gerdded ar

ddŵr (Marc 6). Mae hyd yn oed y gweithredoedd hynny'n ymddangos yn ddi-nod ochr yn ochr â'r geni gwryfol a'r atgyfodiad.

Eto, oddi mewn i'r Beibl mae sbectrwm o achosion sy'n gyffredinol yn cael eu galw'n wyrthiau. Nid yw rhai ohonyn nhw yn gwrth-ddweud ein deddfau gwyddonol hysbys: fe allen nhw fod yn

## A yw Credu mewn Gwyrthiau'n rhesymol mewn Oes Wyddonol?

ddigwyddiadau prin ond naturiol. Mae cael hyd i ddarn o arian yng ngheg pysgodyn yn annhebygol iawn yn yr ystyr ystadegol, ond nid yw'n mynd yn groes i ddeddf sy'n hysbys (Mathew 17:27). Mae rhai pethau eraill, fodd bynnag, fel atgyfodiad Iesu, yn ymddangos eu bod yn mynd yn groes i'n dealltwriaeth gyfredol o gysondebau yn y bydysawd. Ym mhob achos ychydig iawn o ddiddordeb mae'r ysgrifenydd yn ei ddangos yn y modd y digwyddodd y pethau hyn. (Un o'r eithriadau yw hanes y Môr Coch yn agor i ryddhau pobl Israel o afael cerbydau rhyfel yr Eifftiaid; yn ôl Exodus 14:21 deallid bod hyn yn ganlyniad i wynt Dwyreiniol nerthol.)

Rhaid i ni fod yn ofalus, felly, i beidio â gwahaniaethu'n ormodol rhwng yr hyn sy'n cael ei alw gennym yn gyffredinol yn 'wyrthiol' a digwyddiadau eraill. Yr hyn sy'n bwysig yw eu hystyr neu eu harwyddocâd. Mae Efengyl Ioan yn pwysleisio'r agwedd hon. Caiff y gwyrthiau eu galw'n *arwyddion* gan Ioan, ac maen nhw wedi eu plethu'n gymhleth i'r stori a strwythur ei Efengyl.

Ond pa rôl oedd i'r gwyrthiau? Rhoddir amryw o atebion yn y Testament Newydd.

- Roedd codi Lasarus o farw'n fyw 'er gogoniant i Dduw' (Ioan 11:4); ond
- roedd y weithred hefyd yn arddangosiad o drugaredd Iesu (Ioan 11:33, 35, 38).
- Yn arddangosiad o Iesu fel Mab Duw (Ioan 20:30).
- Mae iacháu'r dyn dall yn ddameg wedi ei hactio am y ffordd y byddai Iesu'n fuan yn agor llygaid ysbrydol y disgyblion (Marc 8:22-26; cf. 27-33).
- Mae gwyrthiau eraill yn ymddangos eu bod yn dadlennu pethau am Iesu a'r Tad, fel yr hawl i faddau pechodau (Marc 2:1-12).

Y thema gyffredinol yw bod y gweithredoedd hyn yn fwy na dim ond gweithredoedd o dosturi, arwyddion i darddiad dwyfol Iesu, neu i ddenu'r tyrfaoedd. Maen nhw'n gyntaf oll yn arwyddion, ac yn fynegiad o'r ffaith bod yr oes Feseianaidd wedi cyrraedd ym mherson Iesu. Hynny yw, maen nhw'n arddangosiad dramatig o deyrnasiaeth Duw - o ddyfodiad a chymeriad Teyrnas Dduw yn Iesu.

### Problemau ynglŷn â gwyrthiau

Mae nifer o ddadleuon wedi cael eu defnyddio gan wyddonwyr, athronwyr a diwinyddion yn erbyn bodolaeth gwyrthiau.

Yn gyntaf, *ni all Duw weithredu gwyrthiau mewn bydysawd gwyddonol*. Fe ddadlennodd y chwyldro gwyddonol fydysawd oedd yn rheolaidd ac yn rhagfynegol. Bu deddf disgyrchiant Newton, ynghyd ag orbitau eliptaidd Kepler, yn egluro'n llwyddiannus symudiad y planedau o amgylch yr haul. Er na chymerodd Newton ei hun y safbwynt hwnnw, mae gweld y bydysawd fel cloc rhagfynegol yn aml yn cael ei alw'n 'yr olygfa-fyd Newtonaidd'. Ystyrid harddwch, rheoleidd-dra a symlrwydd deddfau gwyddonol fel adlewyrchiadau o'r drefn a ffyddlondeb Duw'r creawdwr. Ond roedd hynny ynddo'i hun yn arwain at broblemau. Pe gellid egluro popeth â deddfau gwyddonol, a oedd lle i Dduw i wneud gwyrthiau? Ac os oedd popeth yn berffaith, wedi ei greu gan Dduw, pam oedd yn rhaid i Dduw 'gywiro mecanwaith' Natur trwy wyrthiau, gan weithredu yn groes i'w ddoethineb a thorri ei ddeddfau ei hun? Fel yr ysgrifennodd Leibniz (1646-1716) ynghylch Natur, '*I maintain it to be a watch, that goes without wanting to be mended by him*' (Alexander, 1956, t. 18).  
Yn ail, *mae'r dystiolaeth am wyrthiau*

## A yw Credu mewn Gwyrthiau'n rhesymol mewn Oes Wyddonol?

yn *annibynadwy*. Un a oedd yn feirniadol iawn ynghylch gwyrthiau oedd yr athronydd o'r Alban, David Hume (1711-1776). Fe awgrymodd nad oedd gwyrthiau yn cael eu cofnodi gan '*men of good sense*' ond gan bobl anwaraidd nad oedd yn gwybod yn well, ac o ganlyniad na ellid dibynnu arnyn nhw. Yn ychwanegol, dadleua Hume, '*a wise man proportions his belief to the evidence.*' Fel yr oedd y dystiolaeth am wyrthiau'n brin o'i gymharu â thystiolaeth am ddeddfau naturiol gwyddoniaeth, ni ddylid credu mewn gwyrthiau. Honnai Hume, yn ein gwybodaeth o'r byd fe gaiff ein profiadau personol flaenoriaeth ac ni chaiff tystiolaeth pobl eraill ei derbyn ond ar yr adegau hynny pan fydd yn cyd-fynd â'n holl brofiadau eraill ni. Felly, gan nad yw'r mwyafrif ohonom wedi profi gwrth yn uniongyrchol, ni allwn dderbyn tystiolaeth pobl eraill amdany'n nhw.

Yn drydydd, *mae'n sarhad moesol bod Duw'n cyflawni dim ond rhai gwyrthiau ac nid eraill*. Yn aml, mae gwyrthiau sy'n cael eu hawlio yn ymddangos ar y gorau'n ddigwyddiadau pitw o'u cymharu â digwyddiadau arswydus y byd hwn. Mae gwyrthiau'n gwneud y broblem o ddrygioni naturiol yn anos, ac mae rhai diwinyddion wedi awgrymu nad yw Duw yn gweithredu yn y byd ar wahân i'w gadw mewn bodolaeth (Wiles, 1986). Trwy ddweud nad yw Duw'n cyflawni unrhyw weithredoedd anarferol neu neilltuol yn y byd, mae hynny'n caniatáu i Dduw ddianc rhag y feirniadaeth, er enghraifft, nad oedd wedi ymyrryd â gwrth i atal dioddefaint yr Holocaust.

Arweiniodd y tri chonsyrn hyn at gwestiynu'r storïau Beiblaidd. Chwiliat rhesymolwyr fel Heinrich Paulus (1761-1851) am eglurhad naturiol i'r hyn oedd yn ymddangos yn wyrthiol. Felly, cafodd y pum mil eu porthi, nid wrth i fara a physgod gael eu cynhyrchu'n

oruwchnaturiol, ond trwy i'r dorf rannu'r bara a'r pysgod yr oedden nhw wedi eu cadw ar eu cyfer eu hunain ar ôl iddyn nhw gael eu hysgogi gan esiamp bachgen bach. Yn y ffordd hon, gellid cadw'r darlun o Iesu'r athro gwych, a bod ei 'wyrthiau' yn cael eu cyfyngu i newid meddyliau a gweithredoedd bodau dynol.

Cafodd y prif ail-ddehongliad arall o'r storïau gwyrthiol eu rhoi gan David Strauss (1808–1874). Roedd ef yn edrych ar y storïau gwyrthiol fel 'mythau': hynny yw, storïau oedden nhw a gafodd eu creu gan yr eglwys fore allan o batrymau yn yr Hen Destament i fynegi ei chred a chyfleu pwynt diwinyddol am Iesu. Felly, mewn gwirionedd ni ddigwyddodd yr atgyfodiad, ond stori oedd hi i ddweud wrthym y bydd yr hyn yr oedd Iesu'n byw er ei fwyn yn mynd i barhau – bod math o gorff 'Iesu' yn gorwedd ac yn dadfeilio yn ei fedd, ond bod ei wirionedd yn parhau i fynd rhagddo.

### Ysgolheictod modern: Gall fod ychydig yn fwy cymhleth ...

Mae'r rhai sy'n dadlau o blaid gwyrthiau a'r rhai sy'n dadlau yn eu herbyn weithiau yn lleihau'r cymhlethdod sydd ynghlwm wrth y drafodaeth Feiblaidd, hanesyddol, athronyddol, wyddonol a diwinyddol.

Yn gyntaf, fe fydden ni'n anghywir yn meddwl bod yr awduron Beiblaidd yn rhy or-symbl. Doedd ganddyn nhw ddim dealltwriaeth o ddeddfau gwyddonol modern, fel deddf disgyrchiant Newton neu egwyddor Archimedes, ond roedden nhw'n gwybod ei bod hi'n anarferol i bobl fynd am dro ar wyneb Môr Galilea. Y ffactor 'wow' hwn o Dduw yn gweithredu mewn ffyrdd anarferol mewn hanes sy'n ganolog i'r traddodiad Iddewig-Cristnogol. Mae gan ysgolheictod Beiblaidd cyfoes lai o gydymdeimlad â dehongliadau

## A yw Credu mewn Gwyrthiau'n rhesymol mewn Oes Wyddonol?

Paulus a Strauss ac yn rhoi mwy o bwysau ar y safbwynt bod yr awduron Beiblaidd yn credu eu bod yn cofnodi digwyddiadau hanesyddol, hyd yn oed os oedden nhw'n cyflwyno'r digwyddiadau hyn gyda'r bwriad o argyhoeddi pobl eraill i gredu.

Yn ail, mae gwyddoniaeth wedi symud ymlaen ymhell ers y ddelwedd Newtonaidd o fydysawd peirianwaith cloc. Nid yw gwyddoniaeth yn rhoi disgrifiad trwyadl a pherffaith o realaeth. Mae deddfau gwyddonol yn cynrychioli'n agos ond heb yn union gyfateb i realaeth, sy'n golygu y gall ein darlun gwyddonol cyfredol wella gydag amser. Mae hwn yn ein hatgoffa o'r gwiriondeb o ddweud bod ein gwybodaeth wyddonol yn dirymu gwyrthiau.

Deddfau gwyddonol yw'r cysondebau hynny yr ydym wedi eu darganfod am y bydysawd. Mae'r cyfan yn amodol ar addasiadau posib fel y daw mwy o ddata ar gael, ac os oes rhai eithriadau yna rydym yn chwilio am eglurhad yn nhermau deddfau eraill. Gall fod rhai ffenomenau yn ymddangos yn wyrthiol nid oherwydd eu bod yn torri deddfau gwyddonol ond yn syml oherwydd eu bod yn adlewyrchu realaeth ddyfnach, fwy gwir nad yw ein dealltwriaeth bresennol yn ei gyrraedd ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, nid ein gwybodaeth gyfyngedig o deddfau gwyddonol yw'r unig reswm pam fod yr olygfa-fyd Newtonaidd o'r bydysawd yn cael ei gweld fel cloc enfawr yn anghywir. Yn ystod yr ugeinfed ganrif mae dwy ddamcaniaeth yn perthyn i ffiseg fodern wedi trawsnewid ein ffordd o feddwl. Mae *damcaniaeth cwantwm* yn delio â'r byd ar lefel atomau a'r gronynnau is-atomig sy'n eu ffurfio, fel protonau, niwtronau ac electronau. Mae'n dadlennu fod y byd hwn yn *gynhenid* anrhagweladwy. Dengys *damcaniaeth caos*, sy'n

disgrifio'r byd ar lefel dydd i ddydd, bod y mwyafrif o systemau'n eithriadol o sensitif i amgylchiadau o'u cwmpas, gymaint felly fel bo'r cynnwrf lleiaf yn gwneud iddyn nhw weithredu mewn ffordd radical wahanol. Golyga hyn mai ar ôl ychydig amser gall system ddod yn *ymarferol* anrhagweladwy, fel sy'n amlwg gyda'r gwaith o ragolygu'r tywydd.

Efallai nad oes cytundeb llwyr dros y math o safbwynt am y byd y mae'r damcaniaethau hyn yn arwain ato, ond mae'r naill a'r llall yn cwestiynu ein gallu i ragfynegi'r dyfodol mewn modd sylfaenol. A yw hyn yn rhoi lle i Dduw wneud rhywfaint o waith manwro? O'i weld fel hyn, nid yw'n broblem gan Dduw 'dorri ei deddfau ei hun'. Oherwydd bod y systemau hyn yn anrhagweladwy, dadleuwyd bod Duw yn gallu gweithio mewn ffyrdd anghanfodol (Pollard, 1958; Polkinghorne, 1988). Gall hyn ymddangos yn ddeniadol i'r sawl sy'n amddiffyn gwyrthiau. Os dilynwn y ffordd hon, fodd bynnag, a ydym yn dweud na all Duw weithredu *yn unig* (dyweder) mewn systemau anhrefnus, a ddim o gwbl mewn ffyrdd eraill? Yn ychwanegol, fel y gwelsom yn gynharach, ystyria'r Beibl wyrthiau fel arwydd o weithgarwch Duw. Os yw gwaith Duw yn 'guddiedig' mewn systemau caos, a yw hyn mewn gwirionedd yn 'arwydd'?

Mae perygl pellach i bersbectif o'r fath ddisgyn i'r fagl o drin deddfwriaeth wyddonol fel rhywbeth *rhagnodol* yn hytrach na *disgrifiadol* (Poole, 1990, tt 68-69). Yn achos nifer o ddiwinyddion, mae'r deddfau gwyddonol yn ddisgrifiad lledgywir o'r ffordd y mae Duw yn cynnal y bydysawd mewn trefn reolaidd. Nid yw creadigaeth fel cloc sy'n cael ei weindio gan Dduw ac sy'n cael ei adael i redeg ei gwrs yn annibynnol, gan ymyrryd weithiau trwy bwysu ei fys ar y mecanwaith. Mae *pob digwyddiad* yn

## A yw Credu mewn Gwyrthiau'n rhesymol mewn Oes Wyddonol?

tarddu oddi wrth Dduw, trwy iddo greu a chynnal mater ac egni a deddfau naturiol eu rhyngweithiad. Y cwestiwn felly yw a oes gan Dduw'r greadigaeth y rhyddid i weithio mewn ffyrdd anarferol, ochr yn ochr â ffyrdd rheolaidd Duw o weithio.

Y cwestiwn cymhleth hwn o sut y gall Duw naill ai gynnal y cysondebau a rhoi'r rhyddid iddo'i hun i weithredu mewn ffyrdd anarferol sy'n ganolog i'r cwestiwn o wyrthiau (Wilkinson, 2004).

### Cysylltau

<http://www.reasonablefaith.org/the-problem-of-miracles-a-historical-and-philosophical-perspective>  
(William Lane Craig, *Reasonable Faith*)

<http://www.iep.utm.edu/miracles/>  
(David Corner, *Internet Encyclopedia of Philosophy*)

### Pwyntiau trafod

1. Fe ddywedodd William Temple, cyn Archesgob Caergaint, un tro, '*When I pray coincidences happen, when I don't they don't.*' A all cyddigwyddiad gael ei weld fel gwrth?
2. Ysgrifennodd Charles Darwin yn ei Hunangofiant - *Autobiography*, '*the more we know of the fixed laws of nature the more incredible do miracles become.*' A oedd hyn yn wir fwy am y bedwaredd ganrif ar bymtheg na'r unfed ganrif ar hugain?

3. *We must agree with Hume that, if there is absolutely 'uniform experience' against miracles (in other words, if they have never happened), why then, they never have. Unfortunately we know the experience against them to be uniform only if we know that all the reports of them are false. And we know the reports to be false only if we know already that miracles have never occurred. In fact, we are arguing in a circle.* (Lewis, 1967, t. 102)

A yw hwn yn ymateb dilys i ddadleuon Hume?

### Cyfeiriadau

- Alexander, H.G. (Ed.) (1956). *The Leibniz-Clarke correspondence*. Manchester: Manchester University Press.
- Lewis, C.S. (1967). *Miracles: A preliminary study*. London: Fontana.
- Poole, M. (1990). *A guide to science and belief*. Oxford: Lion.
- Polkinghorne, J.C. (1988). *Science and providence*. London: SPCK.
- Pollard, W.G. (1958). *Chance and providence: God's action in a world governed by scientific law*. New York: Charles Scribner's Sons.
- Wiles, M. (1986). *God's action in the world*. London: SCM Press.
- Wilkinson, D. (2004). The activity of God: A Methodist perspective. In *Unmasking Methodist theology* (pp. 142-154). Ed. C. Marsh, B. Beck, A. Shier-Jones, & H. Wareing, London: Continuum.
- Wimber, J. (1985). *Power evangelism*. London: Hodder and Stoughton.

*Mae'r Parchedig Athro David Wilkinson yn Brifathro Coleg Sant Ioan, Prifysgol Durham, ac yn addysgu yn yr Adran Ddiwinyddiaeth a Chrefydd. Mae ei waith ar hyn o bryd yn ymwneud â'r berthynas sydd rhwng diwinyddiaeth Gristnogol a diwylliant cyfoes, o wyddoniaeth i ddiwylliant pop. Mae ei gyhoeddiadau diweddar yn cynnwys Science, Religion and the Search for Extraterrestrial Intelligence, Oxford: Oxford University Press, 2013.*

## Datblygiad Ffydd

### Jeff Astley

*Mae'r erthygl hon yn amlinellu damcaniaeth Fowler ar ddatblygiad ffydd, a'r feirniadaeth y mae wedi ei hachosi.*

*Cyswllt manyleb: CBAC AC3 CS: Crefydd mewn Cymdeithas Gyfoes (U2), 4. Crefydd a'r Unigolyn.*

### Datblygiad a dysgu

Ystyr y gair 'datblygiad' yn syml yw 'tyfu neu beri i rywbeth dyfu'. Caiff ei ddefnyddio'n aml mewn cyd-destunau addysgol i labelu'r cynnydd a'r dyfnhau ar yr agweddau a'r wybodaeth a berthyn i rywun. Ond mae'n fwy defnyddiol gwahaniaethu rhwng (a) newid a ddigwydd i unigolyn trwy ryw fath o brofiad oddi allan iddyn nhw'u hunain ('dysgu'), a (b) newid a ddigwydd yn fwy oddi mewn i rywun, fel mynegiant o'u genynnau yn hytrach na'u hamgylchfyd ('datblygiad'). Mewn bywyd real bydd y ddau fath hyn o ddylanwad yn rhyngweithio, wrth gwrs, ond fe wnawn hai gwahaniaethau sy'n adlewyrchu'r defnydd hwn: e.e., rhwng yr 'addysg rhyw' a wnaethoch chi ei dderbyn gan eich rhieni ac athrawon (a ffynonellau eraill!), a'r 'datblygiad rhywiol' a ddigwyddodd yn eich corff pan wnaethoch chi dyfu trwy gyfnod glasoed.

Bydd seicolegwyr ac addysgwyr weithiau yn trafod datblygiad moesol,

gwybyddol neu grefyddol unigolyn - gan ddeall y pethau hyn yn bennaf yn nhermau'r newidiadau yn y modd y mae pobl yn *meddwl* am y testunau hyn ar gyfnodau gwahanol o'u datblygiad. Gallwn o bosib wahaniaethu hyn oddi wrth yr agweddau, y gwerthoedd, y delfrydau, y credau a'r sgiliau y maen nhw'n eu dysgu yn y gwahanol feysydd hyn.

### Y syniad o ffydd

Er bod y gair 'ffydd' fel rheol yn cael ei gymhwyso i gredoau crefyddol sy'n perthyn i bobl grefyddol, caiff ei ddefnyddio yn fwy cyffredinol am ein perthynas â phobl neu bethau neilltuol, a'r pethau hynny yr ydym yr ydym yn ymddiried ac yn 'credu ynddyn nhw': yn cynnwys ffrindiau, rhieni a pheilotiaid awyrennau, er enghraifft, yn ogystal â gwerthoedd moesol a delfrydau gwleidyddol.

Yn ôl y diwinydd ymarferol a seicolegydd crefydd, James Fowler, mae

## Datblygiad Ffydd

'ffydd' yn derm cyffredinol iawn yn wir. Mae'n labelu'r gweithgaredd dynol, cyffredinol bron, sef:

- creu neu ddarganfod ystyr mewn bywyd; ac
- adnabod, gweld gwerth, a pherthnasu â'r hyn a deimlwn ei fod yn ystyrion, mewn ymrwymiad ac ymddiriedaeth.

Nid yw'r *ffydd ddynol* o reidrwydd yn grefyddol. Rydym i gyd yn credu mewn rhywbeth neu rywun sydd o gonsyrn i ni yn y pen draw. Maen nhw'n rhan o'n trem ar y byd - yr hyn y mae Fowler yn ei alw'n 'amgylchfyd eithaf'. Mae'n dadlau bod unrhyw un sydd ddim ar fin lladd ei hun yn byw trwy ffydd – '*anyone not about to kill himself lives by faith*' (Fowler & Keen, 1978, t. 1). Yn achos Fowler, mae ffydd *grefyddol* yn wahanol i fathau eraill o ffydd, yn anad dim trwy feddu ar wrthrychau crefyddol penodol yn rhan o'i *gynnwys ffydd*: 'canolfannau o werth' crefyddol a 'delweddau o rym' (Duw neu'r duwiau, angylion, nefoedd, uffern), a 'phrif storïau' crefyddol sy'n tanlinellu credoau crefyddol am (dyweder) y creu neu am iachawdwriaeth. (Bydd Cristnogion yn aml yn disgrifio eu gwrthrychau ffydd fel 'Y Ffydd'.) Ym marn Fowler, newid yng nghynnwys ffydd yw tröedigaeth. Dod i gredu mewn gwahanol bethau yw.

Ond mae ffocws Fowler ar *ffurf ffydd* neu *ffydd-fel-proses*: hynny yw, y ffyrdd y mae gennym ffydd, y 'sut' yn hytrach na'r 'beth' yn achos ffydd. Mae 'Ffydd', meddai Fowler, yn ffenomen actif neu ddeinamig . . . yn ffordd-o-fod-mewn perthynas – safiad, ffordd o symud i mewn at, a rhoi ffurf a chydlyniad i fywyd – '*[Faith] is an active or dynamic phenomenon . . . a way-of-being-in-relation – a stance, a way of moving into*

*and giving form and coherence to life*' (Fowler & Keen, 1978, t. 24).

### Agweddau ar ffydd

Nododd Fowler saith elfen oddi mewn i ffydd ddynol. Mae'r fframwaith hwn braidd yn fymrwyl ac mae Fowler yn caniatáu y gall fod fwy i ffydd na hyn. Ar un pwynt mae'n galw'r agweddau hyn yn, '*windows or apertures into the structures underlying faith*' (Fowler, 1976, t. 186). Mae hyn yn awgrymu eu bod yn safbwyntiau penodol ac anghyflawn ar ffenomen gymhleth, fel pe byddech yn gweld rhannau gwahanol o ystafell fawr drwy wahanol ffenestri tra bo rhannau eraill bob amser yn aros yn guddiedig. Agweddau Fowler ar ffydd yw:

- ein rhesymeg (y ffordd yr ydym yn meddwl),
- ein safbwynt-dderbyn (ein gallu i fabwysiadu safbwynt person/rhywun arall),
- ein barnu moesol (y ffordd yr ydym yn ffurfio barn ar sefyllfaoedd moesol),
- ein hymwybyddiaeth gymdeithasol (lle a sut y byddwn yn gosod y ffiniau i'n 'cymuned ffydd'),
- ein perthynas ag awdurdod (pwy/beth sy'n dylanwadu ar ein ffydd, a sut),
- ffurfio ein safbwynt ar y byd (ein ffordd o ddal y cyfan o'n profiadau ynghyd), a hefyd
- ein perthynas â symbolau (ein dealltwriaeth o symbolau, a'n hymateb iddyn nhw).

Mae'r mwyafrif o'r agweddau hyn yn cynnwys sgiliau *gwybyddol* a galluoedd sy'n berthnasol i feddwl, gwybod a deall. Ond mae nifer o'r agweddau hefyd yn canolbwyntio ar berthnasoedd a natur yr hunan, ac o'r herwydd yn fwy *affeithiol*



## Datblygiad Ffydd

(yn perthyn i deimlad). Mae gan Fowler ddi-ddordeb yn natblygiad cymhlygion cyfan patrymau sy'n ymwneud â meddwl, gweld gwerth ar bethau, ymrwymo a chredu - y pethau sy'n ffurfio 'ffydd' unigolyn.

Gall yr holl agweddau hyn o ffydd newid, a disgrifia Fowler ei gyfnodau ffydd (gweler isod) yn nhermau'r saith agwedd hyn. Wrth gyrraedd pob cyfnod datblygol bydd ffydd unigolyn yn enghreifftio ffurf neilltuol o resymu, o ffurfio safbwynt, o benderfynu moesol, ac ati. Ysgrifenna Fowler, mae bod "yn" un o'r cyfryw gyfnodau ffydd yn golygu cael ffordd nodweddiadol o ddarganfod a rhoi ystyr i fywyd beunyddiol. Mae'n golygu cael safbwynt ar y byd, gyda "golwg" ar bethau - *'to be "in" a given stage of faith means to have a characteristic way of finding and giving meaning to everyday life.'* *It is to have a world-view, 'with a particular "take" on things'* (Fowler, 1996, t. 68). Mae'r trawsnewidiad o un cyfnod ffydd i un arall yn cael ei nodi gan newid mewn un neu fwy o'r agweddau hyn ar ffydd, wrth iddyn nhw newid i'r ffurf sy'n fwy nodweddiadol o gyfnod diweddarach. Dim ond pan fydd y cyfan o'n hagweddau ffydd wedi newid mewn ffordd gyffelyb y gellir dweud ein bod wedi symud yn gyfan gwbl i'r cyfnod nesaf.

### Ymchwil i ddatblygiad ffydd

Hawliodd Fowler fod y cynllun hwn o ddatblygiad ffydd yn cael ei gefnogi gan sawl cant o gyfweiliadau cynhwysfawr â phlant, pobl ifanc ac oedolion. Yn y cyfweiliadau rhannol-strwythuredig hyn, oedd yn parhau hyd at 3 awr, roedd pobl yn trafod cwestiynau tebyg i:

- 'Beth mae marwolaeth yn ei olygu i chi?'

- 'A oes unrhyw gredoau, gwerthoedd neu ymrwymadau sydd yn bwysig yn eich bywyd ar hyn o bryd?'
- 'Os oes gennych gwestiwn na fedrwc benderfynu arno, at bwy neu beth y byddech yn troi er mwyn edrych am arweiniad?'

### Cyfnodau ffydd

Gan weithio yn bennaf o fewn seicoleg wybyddol ddatblygol, fe ragdybiodd Fowler gyfres o gyfnodau arwahanol. Mae pob cyfnod yn system integredig o weithrediadau meddyliol ('strwythurau') o feddwl a rhoi gwerth (y saith agwedd). Mae'r cyfnodau hyn o sefydlogrwydd perthynol yn aryneilio â chyfnodau o drawsnewid pryd y bydd ffydd unigolyn yn cael ei ail-strwythuro i gyfnod newydd, sefydlog. Gellir ystyried y broses hon fel colli (un ffordd o fod ynnddi) ffydd er mwyn ennill (ffordd arall o) ffydd.

Tra bod Fowler yn ystyried trefn benodol y cyfnodau fel rhai *hierarchaidd* (gyda phob cyfnod yn adeiladu ar ei ragflaenydd) a *sefydlyn* (neb yn 'methu cyfle' ar gyfnod), nid yw pawb yn symud trwy'r holl gyfnodau. Nid oedd y ddamcaniaeth yn cydnabod llithriad yn ôl, er ei bod hi'n bosib mewn achos o waeledd neu henaint y gallem droi'n ôl at ddefnyddio'r strwythurau a berthynai i gyfnod cynharach. Nid aeth Fowler cyn belled â honni bod ei gynllun datblygol yn un cyffredinol.

Ai dim ond *disgrifiad* o sut y mae'r ffydd ddynol yn datblygu yw cyfnodau Fowler, neu *gyfarwydddeb* normadol o sut y dylai ddatblygu? Yn sicr mae pob cyfnod yn meddu ar ei urddas a'i onestrwydd ei hun, a gall bob unigolyn fod y cyfnod cywir 'ar yr amser iawn' i'w bywyd nhw (Fowler, 1981, t. 274). Ac ni ddylid ystyried y rhai sydd ar gyfnodau diweddarach yn fwy

## Datblygiad Ffydd

gwerthfawr, nac yn fwy 'crefyddol', 'sanctaidd' neu 'achubol'; a gall eu ffydd fod yn gyfan gwbl seciwlar. Ond mae bod yn y cyfnodau diweddarach hyn yn rhoi iddyn nhw allu cynyddol i ddeall profiadau cymhleth, a bod â gofal ehangach dros eraill.

### Cyfnod 0

Hyd at oddeutu bedair blwydd oed caiff amgylchfyd eithaf plentyn ei gynrychioli gan ei brif ofalwr a'i amgylchfyd uniongyrchol. Dyma gyn-gyfnod y '**ffydd gyntefig**'. Wrth reswm, nid yw Fowler wedi gwneud cyfweiliadau â'r grŵp oedran hwn, ond mae'n ei gynnig fel adeg i osod sylfeini pob ffydd, yn cynnwys ein *cyn-ddelweddau* cyntaf o Dduw, wedi eu cyfryngu trwy adnabod llygaid a gwenau cadarnhaol - *our first 'pre-images of God', mediated through 'recognizing eyes and confirming smiles'* (Fowler, 1981, t. 121).

### Cyfnod 1

Y cyfnod cyntaf gwirioneddol gan Fowler yw hwnnw o '**ffydd sythweledol-aldafiol**' (tua 3-7 oed). Erbyn y cyfnod hwn bydd plant yn canfod realaeth fel llyfr lloffion argraffiadol - ymestyniad o'u canfyddiadau a'u dychmygion eu hunain, heb eu rheoli gan feddwl rhesymol. Bydd meddwl yn ystod y cyfnod hwn yn 'gynweithredol', yn sythweledol ac yn gyfnodol. Pwysigrwydd neilltuol y cyfnod ffydd hwn yw ei fod yn adeg pan osodir mewn lle ddelweddau hirdymor a fydd yn ffurfio'r sylfaen i adlewyrchiadau mwy soffistigedig a hunanymwybyddol ymhellach ymlaen mewn bywyd. Edrychir ar symbolau fel pethau 'rhithiol': maen nhw'r hyn y maen nhw'n eu cynrychioli.

### Cyfnod 2

Yn y '**ffydd fytheg-lythrennol**' (tua 6-12 oed) bydd plant wedi datblygu sgiliau gwirioneddol (cadarn) o resymeg a fydd yn eu galluogi i roi trefn ar eu profiadau er mwyn gwahaniaethu rhwng gwir storïau a rhai ffuglennol. Erbyn y cyfnod hwn maen nhw'n ffynnu ar storïau, ac yn dirnad y byd trwy storïau. Nawr, a hwythau'n fwy abl i fynd i mewn i safbwyntiau pobl eraill, maen nhw'n 'ymunwyr' mawr. Bydd meddwl yn foisol yn awr yn rhoi sylw i gymhelliad. Ymdrinnir â symbolau'n aml mewn dull eithaf prenaidd, un-dimensiwn, llythrennol.

### Cyfnod 3

Erbyn y cyfnod hwn o '**ffydd synthetig-gonfensiynol**' (tua 11-18 oed, ond llawer o oedolion, hefyd), mae'r meddwl haniaethol wedi datblygu'n llawn ac mae gallu newydd ar gyfer derbyn safbwynt rhyngpersonol ar y cyd: 'Rwy'n eich gweld chi yn fy ngweld i: Rwy'n gweld y fi rwy'n ei gredu eich bod chi'n ei weld - *'I see you seeing me: I see the me I think you see.'* - (Fowler, 1987, t. 64). Mae perthnasoedd yn holl bwysig yn awr. Bydd y person ifanc yn fwy tebygol o nofio gyda 'lli'r ffydd', i *gydymffurfio* â'r hyn a ddywed eraill. I raddau helaeth, ail-law yw gwneud ystyr o bethau, yn deillio o fanion a gesglir o safbwyntiau am y byd a'i bethau gan rieni ac athrawon, ond yn arbennig gan gyfoedion. Bydd pobl ifanc yn 'syntheseiddio' eu ffydd gan ddefnyddio'r elfennau amrywiol hyn, mewn modd anadlewyrchol. Dydyn nhw ddim yn sylweddoli mewn gwirionedd bod *ganddyn* nhw safbwynt am y byd; a

## Datblygiad Ffydd

dydyn nhw hyd yn hyn ddim o ddirif wedi dechrau meddwl drostyn nhw'u hunain. Nodweddir y cyfnod hwn yn aml gan berthynolaeth foesol naif.

### Cyfnod 4

Mae'r trawsnewid i'r ffydd *gritigol* fwy ymreolaethol, hunan-adlewyrchol hon yn aml yn drawmatig a gall gymryd sawl blwyddyn. Mabwysiadu'r '**ffydd unigol-adlewyrchol**' wna pobl (o tua 17 neu 18 oed ymlaen, neu o'u tridegau neu eu pedwardegau ymlaen) trwy symud allan o'u hen ffydd bresennol i wneud arolwg o opsiynau eraill, ac i ddewis safbwynt am y byd drostyn nhw eu hunain. Golyga hyn yn anochel 'adael cartref' seicolegol: cilio tuag at le manteisiol o ble y byddan nhw'n teimlo y gallan nhw wneud eu penderfyniadau eu hunain mewn pellter critigol oddi wrth eu system o werth ... flaenorol - '*in a 'critical distancing from one's previous . . . value system'*' (Fowler, 1981, t. 179). Mae ffydd unigolyn yn awr yn ffydd sydd wirioneddol wedi ei *pherchnogi*, fel y mae heteronomiaeth yn rhoi lle i ymreolaeth. Ond mae'r angen i fod yn glir am bethau, ac i feddu ar ffydd daclus, gydynol a chyson, yn temtio llawer i ddatrys materion anodd yn rhy gyflym. Mater cynyddol o fabwysiadu egwyddor o gyfiawnder yw moesoldeb.

### Cyfnod 5

Bydd rhai oedolion yn newid ymhellach, yn ddiweddarach wrth iddyn nhw ddod i gyfnod canol-bywyd o '**ffydd gysylltiol**'. Roedd Cyfnod 4 yn ymwneud yn ddwys ag annibyniaeth, eglurder cysyniadol, uniongrededd athronyddol a symbolau anfytholegol; mae Cyfnod 5 yn fwy agored, mandyllog ac athraidd - ('*porous and permeable*': Fowler, 1986, t. 30), ac yn fwy ymatebol i eraill a'u safbwyntiau *nhw* am y byd. Mae hyn yn arwain at ffydd sy'n llai taclus, ond yn fwy realistig

a gostyngedig ac sy'n fwy abl i ymdopi â thensiynau a pharadocsau mewn meddwl a phrofiad. Os mai Cyfnod 4 yw'r cyfnod o 'resymoldeb Goleuedigaeth' gul, wedi ei nodi weithiau gan or-ddeallaeth cras a'r chwant i egluro, mae Cyfnod 5 yn adlewyrchu symudiad tuag at ymdriniaeth fwy agored 'ôl-Oleuedigaeth' o ystyr a'r gwir sy'n cydnabod yr amlddimensiynaeth o wirionedd ac na all rheswm benderfynu popeth ar ei ben ei hun (Fowler, 1988). Mae symbolau bellach wedi adennill eu grym, wrth i bobl deimlo eu bod wedi eu rhyddhau oddi wrth y rheidrwydd i'w hegluro. Ble mae Cyfnod 4 yn cynrychioli *ffydd Naill ai/Neu*, mae Cyfnod 5 yn fath o ffydd fwy 'cynhwysol' yr *Y Ddau Beth/Ac* - '*Where Stage 4 represents an Either/Or faith, Stage 5 is a more 'inclusive', Both/And type of faith.*' (Astley et al., 1991, t. 30).

### Cyfnod 6

Ychydig iawn o bobl sy'n cyrraedd y **ffydd gyffredinolrwydd** hon, sydd wedi ei nodweddu gan arddull ddatgysylltiedig hollgwmpasog, anhunanol, angerddol o berthnasu â realaeth gyfan.

### Beirniadaethau

- Mae llawer o ymchwilyr bellach yn ffafrio meddwl am *arddulliau* neu *batrymau* gwahanol o ffydd, sy'n gweddu'n well gyda dylanwad stori bywyd pobl a chyd-destun cymdeithasol ar eu modd o fod mewn ffydd. Mae pump o arddulliau crefyddol Heinz Streib yn gyfochrog â phrif gyfnodau ffydd Fowler, ond maen nhw wedi eu modelu ar gyfres o grymeddau gorgyffwrddol, yn hytrach na chyfres o gyfnodau sydd ddim yn gorgyffwrddol wedi eu cysylltu â chyfnodau o drawsnewidiad. Mae'r crymeddau sy'n cynrychioli pob arddull ffydd yn codi o lefel isel ac yn

## Datblygiad Ffydd

- disgyn eto ar ôl pwynt diweddu - *'descend again after a culminating point'* (Streib, 2001, t. 149); bydd pob un wedyn yn parhau ar lefel is tra bo'r arddulliau dilynol yn aeddfedu. Ar unrhyw un amser, felly, mae modd i unigolyn allu cael mynediad at ystod o wahanol arddulliau ffydd, ac ystyrir datblygiad yn bennaf fel mater o unigolyn yn gweithredu trwy ac yn ymdopi â'i integreiddiad ef neu hi o nifer o arddulliau ffydd. Felly, ni ellir eithrio'r ffaith y gall unigolion ddychwelyd at arddulliau cynharach, gan fod elfennau o wahanol arddulliau ar gael i unigolyn ar yr un pryd - *'it cannot be excluded that individuals may revert to earlier styles, that elements of different styles are at the disposal of a person at the same time.'* (Fowler, Streib & Keller, 2004, t. 13).
- Nid yw'r seicoleg wybyddol ddatblygol yr oedd Fowler yn dibynnu arno yn llawn werthfawrogi galluoedd gwybyddol (meddyliol) plant iau, fel yr oedd Jean Piaget, oedd â'i waith wedi ei gadarnhau'n anfeirniadol gan Fowler.
  - O bosib nid yw data o gyfweiliadau ymchwil yn ddigon penodol i gadarnhau'r ystod eang a berthyn i ddamcaniaeth Fowler. Wedi dweud hynny, mae rhai yn dadlau fod yno mewn gwirionedd ddimensiwn unedig, cyffredinol o ddatblygiad ffydd (Snarey, 1991), a bod y cyfweiliad datblygiad ffydd yn bendant yn ddigonol ar gyfer dibenion ymchwil - *'is clearly adequate for research purposes'* (Parker, 2006).
  - Ni all ffurf a chynnwys ffydd bob amser gael eu gwahaniaethu'n hawdd.
  - Mae'r hyn sy'n gwneud ffydd yn grefyddol yn fwy na gwahaniaeth yn y cynnwys.
  - Mae cynllun Fowler yn gweddu'n well o blaid datblygiad gwryw nag ar gyfer benywod (Slee, 1996, tt. 88–92), yn arbennig felly yn ei adroddiad ar Gyfnod 4 a'r trawsnewid tuag ato.

### Geirfa

*Ymreolaeth/ Autonomy:* meddwl a phenderfynu drosoch eich hun.

*Dadfytholegu/ Demythologise:* dehongli symbolau a mythau fel ffeithiau llythrennol ac athrawiaethau.

*Heteronomiaeth/ Heteronomy:* bod yn ddarostyngedig i safbwyntiau eraill.

## Datblygiad Ffydd

### Cysylltiadau

<http://passingonthefaith.org.uk/docs/insights%20from%20Faith%20Development%20Theory%20and%20Research.pdf> (Jeff Astley, 'Insights from Faith Development Theory and Research')

[http://www.faithformationlearningexchange.net/uploads/5/2/4/6/5246709/faith\\_development\\_faith\\_formation\\_-\\_keeley.pdf](http://www.faithformationlearningexchange.net/uploads/5/2/4/6/5246709/faith_development_faith_formation_-_keeley.pdf) (Robert J. Keeley, 'Faith Development and Faith Formation: More Than Just Ages and Stages')

[Podlediad ac erthygl gan Heinz Streib, hefyd – ond dim ond i'r rhai sy'n credu y gallan nhw ymdopi . . . !

<http://www.religiousstudiesproject.com/podcast/podcast-heinz-streib-on-faith-development-theory/>

a

[http://www.academia.edu/259605/Faith\\_Development\\_Theory\\_Revisited\\_The\\_Religious\\_Styles\\_Perspective](http://www.academia.edu/259605/Faith_Development_Theory_Revisited_The_Religious_Styles_Perspective) (Nodwch y diagram ar dudalen 150)]

### Pwyntiau trafod

1. Allwch chi feddwl am enghreifftiau o sut y mae pobl (yn cynnwys chi eich hun) wedi newid, nid yn gymaint yn yr hyn y maen nhw'n ei gredu ond y ffordd y maen nhw'n cynnal eu ffydd: gan gredu hyd yn oed mewn ffordd wahanol weithiau yn y pethau sy'n gyffelyb?
2. Sut o bosib y gall datblygiad rymgweithio â dysgu mewn ffydd ddynol (yn cynnwys ffydd grefyddol)?
3. Ym mha ffyrdd eraill y mae damcaniaeth Fowler ar ddatblygiad ffydd yn agored i feirniadaeth?

### Cyfeiriadau

Astley, J. *et al.* (1991). *How faith grows*. London: National Society and Church House Publishing.

Fowler, J.W. (1976). Stages in faith: The structural developmental approach. In *Values and moral education* (pp. 173–211). Ed. T.C. Hennessy, New York: Paulist.

Fowler, J.W. (1981). *Stages of faith: The psychology of human development and the quest for*

*meaning*. San Francisco, California: Harper & Row.

Fowler, J.W. (1986). Faith and the structuring of meaning. In *Faith development and Fowler* (pp. 15–42). Ed. C. Dykstra & S. Parks, Birmingham, Alabama: Religious Education Press.

Fowler, J.W. (1987). *Faith development and pastoral care*. Philadelphia: Fortress.

## Datblygiad Ffydd

- Fowler, J.W. (1988). The Enlightenment and faith development theory. Reprinted in *Christian perspectives on faith development* (pp. 15–28). Ed. J. Astley & L.J. Francis, Leominster, UK: Gracewing; Grand Rapids, Michigan: Eerdmans, 1992.
- Fowler, J.W. (1996). *Faithful change: The personal and public challenges of postmodern life*. Nashville, Tennessee: Abingdon.
- Fowler, J.W. & Keen, S. (1978). *Life maps: Conversations on the journey of faith*. Minneapolis, Minnesota: Winston Press; Waco, Texas: Word.
- Fowler, J., Streib, H., & Keller, B. (2004). *Manual for faith development research* (3rd ed.). Bielefeld, Germany: Research Center for Biographical Studies in Contemporary Religion; Atlanta, Georgia: Center for Research in Faith and Moral Development.
- Parker, S. (2006). Measuring faith development. *Journal of Psychology and Theology*, 34(4), 337–348.
- Slee, N. (1996). Further on from Fowler. In *Research in religious education* (pp. 73–96). Ed. L.J. Francis, W.K. Kay, & W.S. Campbell, Leominster: Gracewing; Macon, Georgia: Smyth & Helwys.
- Snarey, J. (1991). Faith development, moral development, and nontheistic Judaism: A construct validity study. In *Handbook of moral behavior and development, Vol 2: Research* (pp. 279–305). Ed. W.M. Kurtines & J.L. Gewirtz, Hillsdale, New Jersey: Lawrence Erlbaum.
- Streib, H. (2001). Faith development theory revisited: The religious styles perspective. *The International Journal for the Psychology of Religion*, 11(3), 143–158.

*Mae'r Parchedig Athro Jeff Astley, sy'n athro mygedol ym mhrifysgolion Durham, Glyndŵr a York St John, yn olygydd tri llyfr ar astudiaethau yn ymwneud â datblygiad ffydd: How faith grows, London: National Society and Church House Publishing, 1991, Christian perspectives on faith development, Leominster: Gracewing Fowler Wright and Grand Rapids, Michigan: Eerdmans, 1992 a Marion Smith, Ways of faith, Durham: NEICE, 2003.*

## Moeseq Sefyllfa: A oedd Joseph Fletcher yn iawn trwy'r adeg?

Ashley Wilson

*Mae'r erthygl hon yn trafod y peryglon o foeseq 'haniaethol' ac yn dadlau am ymdriniaeth mwy 'sefyllfaol'. Mae'r awdur yn awgrymu bod Situation Ethics Fletcher yn darparu adroddiad cywir o benderfyniad moeseq mwy eang, ond bod ei ddibyniaeth ar agapē fel yr unig ganllaw i benderfyniad moeseq yn destun beirniadaeth.*

*Cyswllt manyleb: CBAC AC1/2 ETH: Cyflwyniad i Grefydd a Moeseq (UG), 2. Moeseq Sefyllfa: Joseph Fletcher. A ydym yn 'fodau rhydd'?*

### Moeseq haniaethol?

Mae penderfyniadau moesegol yn cael effaith ar rai o'r meysydd pwysicaf a mwyaf gwerth-lwythog o'n bywyd a'n perthnasoedd ag eraill; eto mae'n ymddangos ein bod yn cael ein hamddifadu o unrhyw ddimensiwn affeithiol i'n hystyriaethau gan lawer o ddamcaniaethau moesegol cyfoes. Caiff moeseq ei hystyried yn ddisgyblaeth wrthrychol, lled-wyddonol: dylid eithrio'r holl ystyriaethau goddrychol (teimladau, emosiwn, dychymyg), yr holl ystyriaethau asiant-berthnasol a phob nodwedd cyd-destunol-berthnasol

Mae hyn yn mynd yn erbyn ein profiad moesol dydd i ddydd. Fe ddywed greddf a synnwyr cyffredin bod ein bywydau a'n cydberthnasoedd ag eraill yn gymhleth ac yn ddynamig. Mae'n ymddangos ei bod hi'n amhriodol gwadu ein teimladau a'n nwydau mewn perthynas â

phenderfyniadau am ein bywydau a'n perthnasoedd pan maen nhw'n aml ymhlith y pethau hynny sy'n ein hysgogi fwyaf. Mae nwydau ac emosiynau yn *cyfrif*. Cawn ein hunain yn aml mewn sefyllfaoedd lle rydym yn teimlo na ddylai rheol hollol dda gael ei defnyddio 'ar yr achlysur hwn', neu lle mae'n ymddangos yn syml nad oes un da arall. Mae moeseq yn ymwneud â dewisiadau diriaethol; gall ystyried penderfyniad moesegol 'yn yr haniaethol' deimlo'n artiffisial neu'n ddideimlad iawn.

Rwy'n awgrymu fod haniaethu egwyddorion moesegol (pa un ai rheolau, hawliau, dyletswyddau, canlyniadau neu beth bynnag) o unrhyw gyd-destun gweithredu, ac o unrhyw brofiad ac emosiwn dynol, yn cynnwys diffyg difrifol mewn unrhyw system o feddwl moesegol. Mae sawl damcaniaeth foesegol fodern wedi ceisio disgrifio rheolau sy'n gymwys

## Moeseg Sefyllfa: A oedd Joseph Fletcher yn iawn trwy'r adeg?

ym mhob achos, neu weithdrefn i bennu'r weithred 'iawn' neu'r dewis 'iawn' mewn unrhyw sefyllfa a roddir. Fodd bynnag, yn eu hymgeision i droi moeseg yn ddisgyblaeth wyddonol resymol, mae'r cyfryw ddamcaniaethau wedi haniaethu'r broses o benderfynu moesegol i dull gwrthrychol a datgysylltiol (ac, efallai, yn beryglus o agos at fod yn amherthnasol).

Efallai bod angen rhywfaint o haniaethu yn ein meddwl moesegol, ond fel offeryn i ddadansoddi yn unig. Pan fyddwn wyneb yn wyneb â phenderfyniad moesegol cyd-destunol dwys gydag ystod o ffactorau moesol perthnasol a rhwydwaith o berthnasol mae'n ofynnol i rywun ddechrau yn rhywle, a gallai tynnu rhai nodweddion o'r sefyllfa er mwyn eu hystyried fod yn anhepgorol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol cofio bod y fath haniaeth yn gyfrwng ac nid yn ddiben. Fel y gwnaeth John Dewey a James Tufts sylwi (yn 1908):

*Of one thing we may be sure. If inquiries are to have any substantial basis, if they are not to be wholly up in the air, the theorist must take his departure from the problems which men actually meet in their own conduct. He may define and refine these; he may divide and systematize; he may abstract the problems from their concrete contexts in individual lives; he may classify them when he has detached them; but if he gets away from them he is talking about something which his own brain has invented, not about moral realities.* (Fletcher, 1966, t. 159)

Mae canlyniadau myfyrdod moesegol ar nodweddion haniaethol, felly, yn gorfod cael eu tafoli yn erbyn ymdriniaethau posib eraill a'u bwydo'n ôl i'r cyd-destun er mwyn llunio barn

foesegol. Ni all unrhyw ymdriniaeth unigol, sy'n seiliedig ar haniaeth nodweddion neilltuol, obeithio darparu barn sy'n wirioneddol berthnasol hyd yn oed i'r sefyllfa dan sylw – heb sôn am i eraill, neu'r cyfan, o sefyllfaoedd cyffelyb. Er mwyn cyflawni nod cymhwysedd cyffredinol (neu hyd yn oed dipyn yn lletach), ni all systemau moesegol ond bod yn gyffredinol yn eu cyfarwyddebau neu eu gwaharddiadau. Fel y daw'r systemau'n fwy cyffredinol, maen nhw'n dod yn llai a llai o ddefnydd ymarferol. Maen nhw hefyd yn colli eu dylanwad ar gyfryngau moesegol, gan ddod yn llai a llai abl i *ysgogi* penderfyniadau moesegol. Ymhle mae'r ffynonellau cryfion o'r 'peth yma a'r peth arall' moesol all ganiatáu i ni gyrraedd at y math o gasgliadau moesegol sy'n ysgwyddo digon o bwysau moesol i ysbrydoli pobl i fyw felly? Mae fy synnwyr i'n dweud nad yw darbwylliad rhesymol yn ddigonol, a bod angen ystyriaethau affeithiol ac esthetaidd hefyd yn ogystal â rhesymolrwydd. Yn ogystal, fe ddylid gosod mwy o bwyslais ar gyd-destun, cyfryngau a chymhelliant.

### Her y 'sefyllfaydd' a rhai beirniadaethau

Cafodd y creisis mewn moeseg Gristnogol Brotestannaidd ei brysuro gan *Situation Ethics* Joseph Fletcher (Fletcher, 1966). Mae'n ddadleuol a yw moeseg Gristnogol wedi delio'n ddigonol erioed â'r sialensiau a gyflwynodd Fletcher. Fe wnaeth Stanley Hauerwas y sylwadau hyn (yn 1974):

*The situation ethics debate seems to be slowly coming to an end. This may not be due to the fact that the issue has been settled, but as so often happens in intellectual disputes the adversaries simply become bored*



## Moeseq Sefyllfa: A oedd Joseph Fletcher yn iawn trwy'r adeg?

*and begin to turn their interests elsewhere.* (Hauerwas, 1981, t. 11)

Dymuniad Hauerwas oedd ail-agor y drafodaeth oherwydd yn rhannol roedd yn credu bod rhywbeth yn sylfaenol gywir ym mhrif bwynt adroddiad Fletcher ynghylch penderfyniadau moesegol. Rwyf innau, hefyd, yn meddwl bod 'sefyllfaoldeb' Fletcher yn darparu ffenomenoleg moeseg (disgrifiad o sut yr ydym mewn gwirionedd yn gwneud penderfyniadau moesegol) sydd yn fras gywir. Byddem yn sicr yn annoeth i anwybyddu'r cyfryw ddisgrifiadau yn ein hystyriaethau ar ddamcaniaeth foesegol.

Mae Fletcher yn amlinellu tair ffordd i gyrraedd at wneud penderfyniadau moesegol. (Fletcher, 1966, t. 17). Yn gyntaf, cyfreithyddiaeth:

*with this approach one enters into every decision-making situation encumbered with a whole apparatus of prefabricated rules and regulations. Not just the spirit but the letter of the law reigns. Its principles, codified in rules, are not merely guidelines or maxims to illuminate the situation; they are directives to be followed. Solutions are preset, and you can 'look them up' in a book – a Bible or a confessor's manual.*

Yn ail, antinomïaeth:

*Over against legalism, as a sort of polar opposite, we can put antinomianism. This is the approach with which one enters into the decision-making situation armed with no principles or maxims whatsoever, to say nothing of rules. In every 'existential moment' or 'unique' situation, it declares, one must rely upon the situation of itself, there and then, to provide its ethical solution.*

Yn drydydd, sefyllfaoldeb:

*A third approach, in between legalism and antinomian unprincipledness, is situation ethics. (To jump from one polarity to the other would be only to go from the frying pan to the fire.) The situationist enters into every decision-making situation fully armed with the ethical maxims of his community and its heritage, and he treats them with respect as illuminators of his problems. Just the same he is prepared in any situation to compromise them or set them aside in the situation if love seems better served by doing so.*

Mae'r beirniad ar ymdriniaeth Fletcher yn *Situation Ethics* mewn gwirionedd yn aml yn ei gynrychioli fel un sy'n hyrwyddo ffurf ar antinomïaeth tra mae ef, fel mater o ffaith, yn llym ei feirniadaeth ar y math o ymatebion anegwyddorol. Yn wir, yn *Situation Ethics* ei hun, mae eisoes yn ymwybodol o'r camgymeriad dichonadwy hwn:

*There has indeed been a 'misplaced debate' about situation ethics, because so many have too quickly taken it to be antinomian.* (Fletcher, 1966, t. 34)

Diystyrir Fletcher yn aml am ganiatáu dim parch at egwyddorion moesegol ac am bwysleisio'r sefyllfa'n gyfan gwbl. Fodd bynnag, mae'n caniatáu rôl i wirebau mewn penderfyniad moesegol. Y pwynt y mae'n ei wneud yw tra bo'r cyfryw wirebau yn gallu bod yn *gyffredinol* wir, dydyn nhw ddim yn cael eu cydnabod yn bendant yn y pen draw: rhaid i ni fod yn barod i gyfaddawdu yn eu cylch os yw'r sefyllfa'n gofyn hynny. Mae'n cyfeirio at hyn fel perthynolaeth egwyddorol - '*principled relativism*' (Fletcher, 1966, tt. 43-46) ac yn caniatáu lle i reolau yn unig fel dangosyddion ac

## Moeseg Sefyllfa: A oedd Joseph Fletcher yn iawn trwy'r adeg?

nid fel cyfarwyddwyr penderfyniad moesegol. Mae'n awgrymu bod y rheol glasur o ddiwinyddiaeth foesol yn gofyn i ni ufuddhau i ddeddfau ac egwyddorion fel prif elfennau moesoldeb ond, cyn belled â phosib, yn tempro ein hymddygiad â chariad a rheswm. Mewn cyferbyniad, mae Fletcher yn awgrymu fel mater o ffaith mai cariad yw'r brif ystyriaeth, ac mai lle is-wasanaethol yn unig y dylai cyfraith chael (t. 31).

Cafodd moeseg sefyllfa Fletcher ei beirniadu'n addas iawn am ei dibyniaeth ar yr egwyddor eithaf amwys, cyffredinol a goddrychol, sef *agapē* (yr 'hael gariad' o'r Testament Newydd, gweler Fletcher, 1966, tt. 15, 79-80, 102-7). Mae cynnwys ffurfiol moeseg sefyllfa yn nhermau arweiniad moesol gwirioneddol yn aruthrol o brin: sut mae modd i ni wybod beth yw angen cariad mewn sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth? Er y gall y feirniadaeth hon fod yn ddilys, ar ei phen ei hun nid yw'n ddigon i danseilio pwynt sylfaenol Fletcher ei bod hi'n ofynnol rhoi ystyriaeth i hynodrwydd sefyllfaoedd penodol yn ogystal â'r gwirebau cyffredinol:

*Situationists ask very seriously if there are ever enough cases enough alike to validate a law or to support anything more than a cautious generalization.* (Fletcher, 1966, t. 32)

Mae'r fath feirniadaethau wedi golygu bod mewnweliadau dilys Fletcher am gymhlethdod penderfyniad moesegol hefyd yn aml wedi cael eu diystyru. Mae'r drafodaeth yn darfod nid oherwydd bod y materion wedi cael eu setlo ond oherwydd bod digon o gysgod wedi cael ei greu fel bod pobl yn troi eu sylw at rywle arall. Mae cymeriadaeth anghywir o safle Fletcher, ynghyd â beirniadaethau cyfiawn o *Foeseg Sefyllfa*, wedi caniatáu i awduron eraill osod yn

eilbeth neu anwybyddu ei sialensiau pwysig mewn perthynas â sefyllfa o benderfyniad moesol ac yn fwy na heb y profiad dynol cyffredinol sydd mewn rhai amgylchiadau fe fydden ni'n dymuno dweud y dylai rhai rheolau moesol gael eu torri.

### Casgliad

Yn fy marn i, roedd mewnweliadau Fletcher yn cynrychioli cywrydd pwysig i 'r gor-symleiddio a'r tueddiadau i haniaethu sawl damcaniaeth foesegol. Mae'r gyriant tuag at haniaethu a symrlwydd mewn moeseg gonfensiynol yn golygu ei fod mewn gwirionedd yn methu â datrys cymhlethdod y bywyd moesol. Yr hyn sydd ei angen yw cyfrif o resymoldeb moesol sy'n gwneud cyfrif priodol o'r sefyllfa-rwydd (traddodiad, diwylliant, sefyllfa a chyfrwng) o ystyriaeth foesol ac sydd â'r gallu i feddu ar wahanol safbwyntiau heb ostwng i berthynolaeth lwyr.

Y canolbwynt canolog, ac o bosib y prif atyniad, o'r ymdriniaeth resymol draddodiadol i foeseg yw'r posibilrwydd y gall rheswm ymarferol arwain ein hewyllys a rheoli ein nwydau, ac o'r herwydd addo trefn foesol a rheolaeth. Mae moeseg, fel gwyddoniaeth, i fod yn 'unystyr' (ddiamwys): mae gan benblethau un 'ateb cywir', mae cyffredinolrwydd yn diddymu newidynnau diwylliannol, a bydd gwahardd nodweddiad asiant-gyfyngol fel emosiwn yn osgoi'r ysbryd o oddrychedd. Daw'r broses o ystyriaeth foesol wedyn yn drefnus, yn rhesymol ac yn rhagweledol, hyd yn oed yn bedantig.

Mae Arthur Schopenhauer yn nodweddu'r fath 'goegddysg foesol' fel 'ffurf o ffolineb':

*[which] arises from a man's having little confidence in his own*

## Moeseq Sefyllfa: A oedd Joseph Fletcher yn iawn trwy'r adeg?

*understanding, and therefore not liking to leave things to its discretion, to recognise what is right directly in the particular case. Accordingly, he puts his understanding entirely under the guardianship of his reason, and makes use thereof on all occasions; in other words, he wants always to start from general concepts, rules and maxims, and to stick strictly to these in life, in art and even in ethical good conduct.* (Schopenhauer, 1966, tt. 60-61)

Gall caniatáu sefyllfaoldeb, fodd bynnag, ymddangos fel ymadael ag unrhyw synnwyr o reolaeth dros werthusiad o benderfyniadau moesol. Gall hyn deimlo'n beryglus o oddrychol - gyda gwahanol bobl o bosib yn cyrraedd at wahanol gasgliadau. Mae amddiffyn sefyllfaoldeb yn erbyn y cyhuddiad hwn yn dasg enfawr; yn yr erthygl hon rwy'n dymuno awgrymu'n syml y cyfeiriad o ble y gallai'r fath amddiffyniad ddod o bosib.

Mae'n ymddangos i mi fod y cyhuddiad yn anwybyddu'r *traddodiad* y cafodd y sefyllfaydd ei ffurfio ohono:

*The situationist enters into every decision-making situation fully armed*

*with the ethical maxims of his community and its heritage.* (Fletcher, 1966, t. 17)

O bosib, gall cyfyngiadau traddodiad, diwylliant ac iaith, ynghyd â doethineb sydd wedi ei ddistyllu dros flynyddoedd (canrifoedd, hyd yn oed) o ystyriaeth foesol gan gymuned, filwrio yn erbyn y fath gyhuddiad o oddrychedd neu berthynolaeth. Bydd angen o hyd arnom i ddod o hyd i faen prawf (neu'n fwy tebygol set o feini prawf) i ddisodli dibyniaeth syml Fletcher ar *agapē*, ond mae'n ymddangos y gall hynny fod yn werth yr ymdrech. Nid dim ond penderfyniadau syml yw'r penderfyniadau moesegol y bydd angen i ni eu gwerthuso; yn hytrach maen nhw'n benderfyniadau wedi eu gwneud gan asiantau (sydd yn rhan o gymuned), gyda threftadaeth neilltuol, mewn amgylchiadau neilltuol. Ni fydd y penderfyniadau eu hunain, na'r canlyniadau eu hunain yn ein galluogi i feirniadu'r cydbwysedd a chynnwys y cyfanrwydd.

Gall sefyllfaoldeb fod yn gymhleth, ond gall hefyd fod yn fwy ffyddlon tuag at y realaethau y mae pobl real yn gwneud penderfyniadau moesegol real.

### Geirfa

*Affeithiol/ Affective:* yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, neu yn eu hennyn.

*Agapē:* cariad anhunanol un person tuag at berson arall (heb oblygiadau rhywiol), yn enwedig cariad sydd o natur ysbrydol.

*Ffenomenoleg/ Phenomenology:* astudiaeth o strwythurau ymwybyddiaeth fel maen nhw wedi eu profi o safbwynt y person cyntaf.

*Perthynolaeth/ Relativism:*

damcaniaeth nad yw cysyniadau o wirionedd a gwerthoedd yn ddiamod, ond yn berthnasol i'r unigolion neu'r grwpiau sy'n eu cynnal.

*Goddrychaeth/ Subjectivism:* yr athrawiaeth (fetafoesegol) nad oes unrhyw werthoedd moesegol diamod, ond bod y rhain yn newidiol yn yr un ffordd ag y mae blas.

## Moeseg Sefyllfa: A oedd Joseph Fletcher yn iawn trwy'r adeg?

### Cysylltau

[http://www.bbc.co.uk/ethics/introduction/situation\\_1.shtml#findoutmore](http://www.bbc.co.uk/ethics/introduction/situation_1.shtml#findoutmore)  
(BBC Ethics, Ethics Guide, 'Situation ethics').

[http://www.en.wikipedia.org/wiki/Situational\\_ethics](http://www.en.wikipedia.org/wiki/Situational_ethics) (Wikipedia)

### Pwyntiau trafod

1. A fydddech chi'n cytuno bod sefyllfaoldeb yn cynrychioli ffenomenoleg gywir o benderfynu moesegol?
2. Beth yw cryfderau a gwendidau y tair ymdriniaeth ynglŷn â

phenderfyniad moesol a ddisgrifir gan Fletcher?

3. A yw *agapē* yn faen prawf digonol ar gyfer penderfyniad moesegol? Gyda pha beth y bydddech chi'n ei amnewid?

### Cyfeiriadau

Fletcher, J. (1966). *Situation ethics*, London: SCM Press.

Hauerwas, S. (1981). *Vision and virtue: Essays in Christian ethical reflection*. Notre Dame, Indiana: University of Notre Dame Press.

Schopenhauer, A. (1966). *The World as Will and Representation, vol. 1*, New York: Dover.

*Mae'r Parchedig Ddr Ashley Wilson yn Gaplan a Chyfarwyddwr Ôl-radd, Coleg Sant Chad, Prifysgol Durham. Mae ganddo raddau prifysgol mewn milfeddygaeth a diwinyddiaeth, ac roedd ei draethawd doethuriaeth ar oblygiadau hermeniwtgau Gadamer ar gyfer moeseg Gristnogol. Ymhlith ei gyhoeddiadau mae Homosexuality and Christian Congregations, Stowmarket: Kevin Mayhew, 2011.*